LEWES, WILLIAM (1652 - 1722), tirfeddiannwr a hynafiaethydd

Enw: William Lewes
Dyddiad geni: 1652
Dyddiad marw: 1722
Priod: Eleanor Lewes (née Pryce)
Priod: Cecil Lewes (née Lloyd)
Rhiant: John Lewes
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: tirfeddiannwr a hynafiaethydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Perchnogaeth Tir
Awdur: Francis Jones

Llwynderw, Sir Gaerfyrddin; ganwyd 1652, mab y Parch. John Lewes, Llysnewydd. Priododd (1), Cecil Lloyd o Fairdre, Sir Aberteifi, a (2), Eleanor Pryce o Rhydybenne. Yr oedd yn achydd digymar, a chasglodd lawysgrifau o Henllys, Penybenglog, Fairdre, a Rhydygors. Ysgrifennodd dros 25 o lyfrau achau wedi eu sylfaenu yn bennaf ar waith David Edwardes. Cynorthwyodd Edward Lhuyd, John Davies (Rhiwlas), Browne Willis, Theophilus Evans, a Hugh Thomas. Medrai ysgrifennu yn rhwydd mewn Lladin, Saesneg, a Chymraeg. Copïwyd y ' Golden Grove Book ' o'i lawysgrifau. Bu farw yn ddiblant fis Rhagfyr 1722. Priododd ei weddw William Lewis (bu farw 1757) o Lanlas, Sir Aberteifi, ac y mae hyn wedi peri llawer o ddryswch yn hanes y ddau r.

Awdur

Major Francis Jones

Ffynonellau

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1949

Browne Willis, *A survey of the cathedral church of St. David's, and the edifices belonging to it, as they stood in the year 1715* (1717)

D. E. Jones, *Hanes Plwyfi Llangeler a Phenboyr* (Llandysul 1899)

Theophilus Evans, *Drych y prif oesoedd yn ddwy ran* (Mwythig 1716)

Burke's Landed Gentry, 1937

MSS. yn B.M. a'r College of Arms

Gweithiau

John Goodman, William Lewes (cyf.), Evan Pryce (cyf.), *Maddeuant i'r edifairiol, neu Draethawd am natur pechod a grym edifairiwch, dan ddammeg y mab afradlon* (Caerfyrddin 1725-6)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738183

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu